# TONY WILLIAMS
## CLWB PÊL PICL TREORCI

Yn ystod y pandemig dechreuodd grŵp bach o chwaraewyr badminton chwarae pêl picl tu allan er mwyn cadw'n actif. Trefnodd Tony i ddefnyddio clwb tenis lleol, gan ddarparu'r sesiynau ac addysgu'r grŵp sut i chwarae. Cyn bo hir, fe wnaeth y grŵp gwympo mewn cariad â'r gamp gan sefydlu Clwb Pêl Picl Treorci. Mae Tony'n rhedeg y clwb, sydd bellach ag 20 o aelodau rheolaidd rhwng 16 a 76 mlwydd oed. Maen nhw'n cwrdd unwaith yr wythnos ac yn chwarae'n gystadleuol mewn achlysuron cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae Tony yn teithio o Donysguboriau i Dreorci er mwyn paratoi a darparu'r sesiynau bob wythnos. Mae'n mynd i'r afael â gwaith gweinyddol y clwb, yn trefnu cystadlaethau, ac yn groesawgar ac amyneddgar gydag aelodau newydd bob tro. Mae'n unigolyn cyfeillgar a hawddgar sy'n gweithio'n galed i dyfu camp Pêl Picl yn lleol a ledled Cymru.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## HYDREF 2024